# Cartrefi Cymunedol Cymru
# Cod Llywodraethiant 2021

## Nodyn esboniadol

### Cefndir

Cafodd Cod Llywodraethiant CHC ei gyhoeddi am y tro cyntaf yn 2018. Cynhaliwyd adolygiad o’r Cod yn gynnar yn 2021, a chyhoeddwyd fersiwn ddiweddaredig ym mis Mai 2021.

Mae’r Cod yn seiliedig ar God Llywodraethiant Elusennau, gyda rhai elfennau wedi eu diwygio i adlewyrchu natur benodol y sector Cymdeithasau Tai yng Nghymru. Mae’n nodi egwyddorion ac arfer a argymhellir ar gyfer llywodraethiant da, ac mae’n fwriadol uchelgeisiol. Fe’i cynlluniwyd i fod yn declyn ar gyfer gwelliant parhaus tuag at y safonau uchaf.

Er mwyn symlrwydd, mae’r Cod yn cyfeirio at ‘denantiaid’ yn y testun ond mae’r un mor berthnasol i breswylwyr, prydleswyr ac eraill y mae aelodau’n darparu gwasanaethau iddynt.

### Rhesymeg am adolygiad 2021

Roedd tri rheswm allweddol am yr adolygiad.

1. Pan gyhoeddwyd Cod Llywodraethiant 2018, gwnaeth CHC ymrwymiad i gynnal adolygiad ar ôl tair blynedd.
2. Yn 2021 cynhaliodd Llywodraeth Cymru hefyd adolygiad o’r Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Cymdeithasau Tai a gofrestrodd yng Nghymru.
3. Cafodd y Cod Llywodraethiant Elusennol hwn, y mae’r Cod hwn yn seiliedig arno, ei ddiwygio ym mis Rhagfyr 2020.

Fel canlyniad, lansiodd CHC adolygiad ym mis Ionawr 2021 a ystyriodd y pwyntiau dilynol:

- Pa mor dda roedd y Cod yn gweithio yn ymarferol;
- P’un a wnaed gwelliannau i sicrhau ei fod yn fwy effeithlon wrth gefnogi llywodraethiant da; a
- Adlewyrchu meysydd sydd angen eu cryfhau yn seiliedig ar y cyd-destun presennol.

### Diben y ddogfen hon

Mae’r nodyn esboniadol yma’n tynnu sylw at y newidiadau a wnaed i God Llywodraethiant CHC 2018 er mwyn creu fersiwn wedi ei diweddaru ar gyfer 2021.

### Methodoleg yr adolygiad

Nid oedd hwn yn adolygiad ‘o’r bôn i’r brig’. Roedd ystod eang o bwysau ar gymdeithasau tai yn gynnar yn 2021 fel canlyniad i bandemig Covid-19. Yn ychwanegol, roedd aelodau wedi dweud wrth CHC fod y Cod yn gweithio’n dda – ond yn dal i ymsefydlu. Teimlai aelodau fod y ffocws ar ddiwylliant ac ymddygiad yn gadarnhaol ac yn ddefnyddiol, ac nad oedd gwthiad cryf o’r sector am newid sylweddol. Fel canlyniad, roedd hwn yn adolygiad cyffyrddiad ysgafn. Mae’n defnyddio profiad aelodau o weithio gyda’r Cod ers 2018, a’r diwygiadau a wnaed i’r cod Llywodraethiant Elusennau yn 2020.

Cyn belled ag sy’n bosibl mae’r Cod diwygiedig yn parhau i ddilyn y cod Elusennol ac ni chafodd newidiadau eu gwneud am resymau arddull neu ddrafftio yn y cod Elusennau.

Cafodd geirfa ei newid, fodd bynnag, i adlewyrchu'r gwahaniaethau rhwng aelodau CHC ac elusennau cyffredinol.

Gwnaed newidiadau fel canlyniad i gyfarfodydd y grŵp llywio a'r ymgynghoriad gydag aelodau, sy'n adlewyrchu consensws eang yn y sector ac yn rhoi ychwanegiadau sylweddol i'r Cod. Ni aethom mor bell a gwneud newidiadau cyfangwbl i'r cod nac ailddylunio'r prif egwyddorion; cafodd y rhain eu nodi, a rhoddir ystyriaeth iddynt yn yr adolygiad nesaf, mwy sylweddol.

Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb a roddodd eu hamser i roi mewnbwn i'r adolygiad hwn. Roedd hyn yn cynnwys aelodau o Grwpiau Cyflenwi Strategol Rheoleiddio a Llywodraethiant, Cyllid, Prif Weithredwyr, Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Cymdeithasau Tai; Grŵp Ymgynghori Rheoleiddiol Llywodraeth Cymru, aelodau o Fyrddau Cymdeithasau tai ac aelodau o dîm Rheoleiddio Llywodraeth Cymru.

Yn neilltuol hoffem ddiolch i Tim Blanch, Ymgynghorydd ac aelodau o Grŵp Llywio y Cod Llywodraethiant am yr adolygiad hwn:

| | | |
|---|---|---|
| Alan Brunt | Prif Weithredwr | Bron Afon |
| Ruth Glazzard | Cadeirydd, Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio ac Aelod Bwrdd | Tai Coastal |
| Tom Broadhead | Cyfarwyddwr Gwella Busnes/ Ysgrifennydd Cwmni | Cartrefi Melin |
| Claire Payne | Swyddog Llywodraethiant | Cartrefi Cymoedd Merthyr |
| Joanna Fairley | Pennaeth Llywodraethiant a Chydymffurfiaeth/Is-gadeirydd Grŵp Cyflenwi Strategol Rheoleiddio a Llywodraethiant | Cartrefi Dinas Casnewydd |
| Helen White | Prif Weithredwr | Tai Taf |
| Jon Huish | Cadeirydd | Trivallis |
| Nia Roblin | Ysgrifennydd Cwmni | United Welsh |
| Claire McDougall | Rheolwr Llywodraethiant | Cymdeithas Tai Wales & West |

# Diweddariadau i God Llywodraethiant CHC – Mai 2021

## Cywirdeb a Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Cyhoeddwyd diwygiad sylweddol o'r ddwy adran hon o god Llywodraethiant Elusennau yn 2020. Cafodd y diwygiadau hyn eu mabwysiadu'n llawn yng Nghod newydd CHC. Cafodd newidiadau eu gwneud i'r iaith a ddefnyddiwyd i adlewyrchu Cod presennol CHC: defnyddir 'sefydliad' yn lle 'elusen', 'aelod bwrdd' yn lle 'ymddiriedolwyr' a 'thenantiaid' yn lle buddiolwyr.

## Newidiadau a wnaed ar ôl ymgynghoriad gyda'r grŵp llywio ac aelodau

### Tenantiaid

Rhoddwyd mwy o bwyslais ar bwysigrwydd tenantiaid. Cafodd yr ymadrodd '*y rhai a wasanaethwn'* ei newid yn y fersiwn newydd i '*tenantiaid'* yn y rhan fwyaf o'r Cod.

### Egwyddor 1 Diben y sefydliad

Rhesymeg, ychwanegwyd "Partneriaid" at y frawddeg

1.5.3 Ychwanegwyd cymal newydd ar weithio partneriaeth i wahaniaethu rhwng gweithio partneriaeth, ac uno a strwythurau grŵp.

1.5.5 Ychwanegwyd cymal newydd ar *"cynaliadwyedd amgylcheddol ac ôl-troed carbon".*

### Egwyddor 2 Arweinyddiaeth

Rhesymeg. Ychwanegwyd cyfeiriad at "*diwylliant ac ymddygiad*".

### Egwyddor 3 Uniondeb

Rhesymeg. Ychwanegwyd ymadrodd ar *"risg o wahaniaethu neu allgau"* at y frawddeg olaf.

3.5 Ychwanegwyd cyfeiriad at *"amrywiaeth syniadau a chefndir"* at y cymal hwn.

3.8.5 Ychwanegwyd cymal newydd ar ddelio gyda gwrthdaro buddiannau lle mae staff yn aelodau llawn o fwrdd.

### Egwyddor 4 Gwneud penderfyniadau, risg a rheolaeth

Egwyddor. Ychwanegwyd paragraff ar *"anghenion a diogelwch tenantiaid presennol a thenantiaid y dyfodol"* at yr egwyddor.

4.6.4 Ychwanegwyd cyfeiriad at *"werth cymdeithasol"* at y cymal.

4.6.5 Ychwanegwyd cymal newydd ar y bwrdd â *'dirnadaeth ar farn staff'.*

### Egwyddor 6 Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

6.3 Ychwanegwyd cymal newydd ar *"clywed ac ymateb i anghenion cymunedau".*

6.5.1 Ychwanegwyd brawddeg ar ddeall *"man cychwyn"* y sefydliad

6.7.3 Ychwanegwyd cymal newydd ar *"bolisïau ac arferion"* sefydliad.

### Egwyddor 7 Agoredrwydd ac atebolrwydd

7.1 Ychwanegwyd brawddeg newydd ar denantiaid a rhanddeiliaid eraill yn cael eu "*cael eu clywed ac ymateb iddynt*"

7.4 Ychwanegwyd "*tenantiaid a"* cyn rhanddeiliaid ac ychwanegu "*ac eraill"* wedyn

7.4.3 Ychwanegwyd "*tenantiaid ac eraill*" cyn rhanddeiliaid

**I gael mwy o wybodaeth ar fersiwn ddiweddaredig Cod Llywodraethiant CHC, cysylltwch a Laura Courtney, Rheolwr Polisi a Materion Allanol ar Laura-Courtney@CHCymru.org.uk**